# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION 15-07-22

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Annwen Hughes, Medwyn Hughes, Nia Jeffreys, Eryl Jones-Williams, Menna Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Gwynfor Owen, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas a Rob Triggs

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

## 1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2022 / 23

**Etholwyd y Cynghorydd Dafydd Meurig yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2022 / 23**

## 2. ETHOL IS GADEIRYDD AR GYFER 2022 /23

**Etholwyd y Cynghorydd Menna Jones yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2022 / 23**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd June Jones a'r Cynghorydd Elwyn Jones (Cadeirydd y Cyngor)

Gadawodd y Cynghorydd Angela Russell y cyfarfod yn dilyn eitem 7 (cau allan y wasg a'r cyhoedd) oherwydd nad oedd ar gael i fynychu'r cyfweliadau ar y 28ain o Orffennaf 2022.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn oherwydd ei fod yn adnabod un o'r ymgeiswyr
Yn dilyn cyngor cyfreithiol, roedd yr Aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7fed o Chwefror 22 fel rhai cywir

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma.**

**O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

**8. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL (2 swydd)**

Datganwyd siom bod dogfennaeth parthed y swyddi wedi cyrraedd yr Aelodau yn hwyr yn y dydd ac o ganlyniad bod yr amser paratoi wedi bod yn gyfyng iawn.

Adroddodd y Cadeirydd bod 7 cais wedi ei derbyn am y swyddi a bod hyn yn galonogol iawn.

Gwahoddwyd y Prif Weithredwr i gyflwyno crynodeb ar y ceisiadau. Amlygodd bod un swydd ar gyfer Cyfarwyddwr Corfforaethol Gofal Cymdeithasol ac un arall ar gyfer Cyfarwyddwr Corfforaethol

Trafodwyd y ceisiadau yn unol â gofynion y swyddi gan ganolbwyntio ar y prif gymwyseddau.

**PENDERFYNWYD**

- **RHOI DAU YMGEISYDD AR Y RHESTR FER AR GYFER CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL GOFAL CYMDEITHASOL**
- **RHOI TRI YMGEISYDD AR Y RHESTR FER AR GYFER CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL**

Wrth ymhelaethu ar y camau nesaf, amlygodd Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) y byddai Canolfan Asesu gyda chefnogaeth cwmni allanol yn cael ei gynnal ynghyd a Chyfweliad Proffesiynol gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol presennol. Bydd adroddiad ffurfiol o ymatebion yr ymgeiswyr ac adborth o'r perfformiad yn cael ei ddarparu gan y Ganolfan Asesu a'r Prif Weithredwr i'w gyflwyno ar lafar i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ar ddiwrnod y cyfweliadau.

Trafodwyd pum cwestiwn a thestun cyflwyniad priodol ar gyfer y cyfweliad.

Cyfweliadau i'w cynnal 28 Gorffennaf 2022

Cynigiwyd gwahodd Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol) i'r cyfweliadau fel sylwedydd.

Cynigwyd cynnal y cyfweliadau ar ffurf hybrid gan roi dewis i'r ymgeiswyr, Aelodau Pwyllgor a'r swyddogion fynychu wyneb yn wyneb neu yn rhithiol.

**PENDERFYNIAD:**

- **Gwahodd Morwena Edwards i'r cyfweliadau fel sylwedydd**
- **Cynnal y cyfweliadau ar ffurf hybrid**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 11:25am